

Mae'r paragraffau a ganlyn yn crynhoi'r prif delerau ac amodau cyflogaeth fel y maent hwy ar hyn o bryd.

Amgaeir disgrifiad swydd sy'n crynhoi prif bwrpas y swydd a'r gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r swydd ynghyd â'r prif ddyletswyddau.

Caiff disgrifiadau swydd eu diwygio bob blwyddyn fel rhan o broses rheoli perfformiad CCAUC.

MAN GWAITH

Bydd y Cytundeb Cyflogaeth yn cadarnhau'r man gwaith.

ORIAU PRESENOLDEB

Yr oriau Amser-llawn yw 37 awr yr wythnos, Dydd Llun i Ddydd Gwener, heb gynnwys amser a gymerir ar gyfer cinio, te, coffi, smygu ac ati. Bydd yr oriau Rhan-amser mewn cyfrannedd â hyn. Bydd CCAUC yn ystyried trefniant oriau gwaith hyblyg.

CYFLOG A THALU CYFLOGAU

Telir cyflogau yn fisol, fis ar ei hôl hi, drwy drosglwyddiad credyd i gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu a all dderbyn trosglwyddiadau electronig o'n system cyfrifo ariannol.

GORAMSER

Gall staff gweinyddol fod yn gymwys ar gyfer taliadau goramser.

TEITHIO A CHYNHALIAETH

Bydd CCAUC yn ad-dalu costau teithio a chynhaliadau gwirioneddol ac angenrheidiol staff sy'n gwneud teithiau ar fusnes y Cyngor. Mae gwybodaeth pellach ar gael yn y Polisi Teithio a Chynhaliadau.

GWYLIAU

Mae gan staff CCAUC hawl i 30 diwrnod o wyliau blynyddol gyda thâl. Rhaid cymryd 3 o'r rhain yn ystod cyfnod y Nadolig/Blwyddyn Newydd pan fydd y swyddfa ar gau, fel y pennir gan CCAUC. Mae gan y staff hawl i 8 o Wyliau Cyhoeddus y flwyddyn gyda thâl. Mae hawl gwylliau staff rhan-amser mewn cyfrannedd â hawl gwylliau staff amser-llawn.

Hefyd, ar ôl 5 mlynedd o wasanaeth cydnabyddedig, ychwanegir 3 diwrnod o wyliau gwasanaeth hir gyda thâl.

ABSENOLDEB OHERWYDD SALWCH

Yn ystod y 3 mis cyntaf yn y swydd, telir tâl salwch statudol yn unig am unrhyw gyfnod o absenoldeb oherwydd salwch. Wedi cwblhau 3 mis o wasanaeth, telir cyflog am 2 fis ar y mwyaf yn ystod absenoldeb oherwydd salwch. Telir y cyflog misol arferol am y mis cyntaf o absenoldeb. Am unrhyw absenoldeb wedi hynny telir hanner y cyflog misol arferol.

Ar ôl cwblhau 12 mis o wasanaeth bydd gan staff hawl i 12 mis o dâl ar y mwyaf o fewn unrhyw gyfnod o 4 blynedd. Telir y cyflog misol arferol am y 6 mis cyntaf o absenoldeb. Am unrhyw absenoldeb wedi hynny telir hanner y cyflog misol arferol hyd at uchafswm o 12 mis.

Byddai unrhyw Dâl Salwch Statudol sy'n ddyledus yn cael ei dalu fel rhan o'r cyflog llawn. Bydd budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol y gall staff eu hawlio yn cael eu hymgorffori o fewn y cyflog llawn. Yn achos staff rhan-amser, bydd yr hawliau hyn mewn cyfrannedd â'r oriau a weithiant.

TREFNIADAU PENSIWN

Gellir ymuno â chynllun pensiwn o'r cychwyn cyntaf. Mae gan weithwyr hawl i ymuno â Chynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ac mae manylion llawn ar gael yma <http://www.civilservicepensionscheme.org.uk/> (linc i wefan Saesneg)

YMDDEOL

Yn unol â deddfwriaeth, nid oes oedran ymddeol diofyn. Cyfeiriwch at y polisi Ymddeol am fanylion pellach.

CYDGYTUNDEBAU

Mae cydgytundeb gyda'r Undeb Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol (PCS) yn effeithio'n uniongyrchol ar y telerau ac amodau cyflogaeth.